

EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020

Rhif 163 - Ymgom Bl.7, 8 a 9 (Dysgwyr) 2- 4 mewn nifer 'Gwisg Ffansi' gan Gwenno Mair Davies



Cymeriadau

Mae rhwydd hyn i hyfforddwr newid rhyw y cymeriadau isod.

- Sam – oed uwchradd
- Ceri - oed uwchradd
- Steff – oed uwchradd

Lleoliad

Ar ochr stryd

Prop / Gwisg

- Steff i wisgo gwisg ffansi – o ddewis yr hyfforddwr
- Y ddau gymeriad arall mewn gwisg lled-ffurfiol
- Ffon symudol

[Mae Steff yn cerdded i ganol y llwyfan. Mae'n gwisgo gwisg ffansi doniol. Caiff y grŵp benderfynu ar y dewis o wisg ffansi]

Steff *[Wrth ei hun]* O na! Dwi'n teimlo fel wali.... Sefyll yma mewn gwisg ffansi ar y stryd. Mae hyn mor 'embarasing'! Ble mae Ceri a Sam? Mae nhw'n hwyr, fel arfer!

[Saib fer, wrth iddo/iddi sefyll yn anghyfforddus a gwenu'n swil ar bobl sy'n mynd heibio]

[Wrth ei hun yn ddiamynedd] Ble ydach chi Sam a Ceri? Mae hyn mor 'awkward'! O! Helo Mrs Roberts! .. Ar fy ffordd i barti ydw i... Na, dydw i ddim yn gwisgo fel hyn bob dydd!

[Daw Sam a Ceri i'r llwyfan. Maent yn gwisgo yn hynod o smart – siwt/ffrogiau crand]

Ceri *[Heb ddeall mai Steff sydd yn y wisg ffansi]* Beth ar wyneb y ddaear.... Edrych Sam!

Sam *[Chwerthin]* Ha! Druan bach! Am *embarasing*! Dychmyga gorfod sefyll ar ochr stryd yn gwisgo fel yna! Mae'n rhaid i mi gael llun o hyn *[Yn estyn ei ffôn i gymryd llun]*.

Ceri Sam, paid a bod yn greulon!

Sam Ond ga'i gymaint o 'likes' ar Instagram!

Steff *[Wrth droi i edrych]* Ble mae'r ddau/ddwy yna? *[Mae'n gweld y ddau/ddwy a hwyhau'n gweld Steff]*.

Sam Steff?!

Ceri Beth yn y byd wyt ti'n wisgo Steff?

Steff Beth ydw i'n wisgo?! Beth ydach **chi** yn wisgo ydy'r cwestiwn? I barti 'dyn ni'n mynd, nid i briodas! Ble mae eich gwisg ffansi chi?

Ceri Gwisg ffansi?! *[Mae Ceri a Sam yn dechrau chwerthin]*

Sam Steff..... dwyt ti ddim wedi deall!

Steff Plîs d'wedwch mai jôc ydi hyn? Plis d'wedwch fod gennych chi wisg ffansi yn eich bagiau?

Ceri : Pam fyddwn ni angen gwisg ffansi?

Steff 'Tyrd i barti efo ni'..... 'mi fydd o'n hwyl'..... 'gwisg ffansi'.....'dyna be ddwedoch chi.....

Sam : **Gwisgo'n ffansi!** Dim **gwisg ffansi**. Gwisgo'n ffansi, yn smart, yn grand.....

Ceri : Ie siŵr! Gwisga'n ffansi, nid gwisgo fel clown.....

Sam : Neu fel *[yn enwi'r wisg ffansi sydd gan Steff]*
[Mae Sam a Ceri yn chwerthin]

Steff : Hei! dyw ddim yn ddoniol! Peidiwch a chwerthin!
[Mae'r ddau yn parhau i chwerthin, yn waeth os rhywbeth nag o'r blaen]
Be' wna'i? Dydw i ddim yn mynd i'r parti fel hyn!? Stopiwch chwerthin, dyw hyn ddim yn ddoniol!

Ceri Sori Steff.....ond mae'n eithaf doniol?!

Steff I bawb arall efallai..... Dydw i ddim yn mynd i'r parti yn edrych fel hyn!

Sam Hei! paid a phoeni! Ti'n dod i'r parti, a dyna ni! Fydd neb yn sylwi!

Ceri Hy! Meddai'r un oedd yn tynnu lluniau ac am eu rhoi nhw ar Instagram!

Steff Beth?! Paid a meiddio Sam!

Sam 'Nai ddim, paid a poeni..... Ond o ddifri', tyrd i'r parti. Gawn ni hwyl.....

Steff Hwyl am fy mhen i! *No way Jose!* Dwi am fynd adref!

Ceri O, na, paid Steff! Wir rŵan, rwy'ti'n edrych yn grêt. Oce, dwi'n siŵr y bydd pawb yn chwerthin wrth i ti gyrraedd ond buan iawn y gwnawn nhw anghofio

Sam Ie!

Ceri Addo i ti, fydd popeth yn iawn.

Sam Wedi meddwl, dwi'n eithaf cenfigennus! Fe gei di LOT fawr o sylw!!

Ceri Yn union. Pawb yn ffansio'r wisg ffansi!

Steff O reit ta', os ydych chi'n hoffi'r wisg gymaint a hynna, pwy sydd yn mynd i swopio efo fi?

Ceri a Sam: *[Yn edrych ar ei gilydd cyn edrych ar Steff] DIM GOBAITH STEFF!*

Y DIWEDD